

**GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A483
(CYFFORDD 5 (CYFNEWIDFA FFORDD YR
WYDDGRUG) I GYFFORDD 7
(CYFNEWIDFA'R ORSEDD), BWRDEISTREF
SIROL WRECSAM) (GWAHARDDIADAU A
CHYFYNGIADAU TRAFFIG DROS DRO) 2021**

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 14 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984. Mae angen y Gorchymyn er mwyn gwneud gwaith ar gefnffordd yr A483, neu gerllaw iddi, rhwng Cyffordd 5 (Cyfnewidfa Ffordd yr Wyddgrug) a Chyffordd 7 (Cyfnewidfa'r Orsedd), Bwrdeistref Sirol Wrecsam.

Effaith y Gorchymyn yw gwneud y canlynol dros dro:

i. cau naill ai cerbyttffordd tua'r gogledd neu gerbyttffordd tua'r de y darn o gefnffordd yr A483 a ddisgrifir yn Atodlen 1 i'r Hysbysiad hwn. Bydd gwrthlif yn weithredol yn lôn allanol pa gerbyttffordd bynnag a fydd yn aros ar agor i draffig;

ii. gwahardd cerbydau sy'n lletach na 3.2 metr rhag mynd ar y darnau o gefnffordd yr A483 ddisgrifir yn Atodlen 2 i'r Hysbysiad hwn. Gwneir trefniadau i gerbydau o'r fath barcio mewn mannau dynodedig a chael eu hebrwng drwy'r safle;

iii. gwahardd pob cerbyd (ac eithrio'r rhai a ddefnyddir gan y gwasanaethau brys neu ar gyfer y gwaith) a beicwyr rhag mynd ar y darnau o gefnffordd yr A483 a ddisgrifir yn Atodlen 3 i'r Hysbysiad hwn. Disgrifir y llwybrau eraill yn yr Atodlen honno hefyd;

iv. gosod terfyn cyflymder o naill ai 30 mya neu 40 mya ar y darnau o gefnffordd yr A483 a ddisgrifir yn Atodlen 4 i'r Hysbysiad hwn.

v. gosod terfyn cyflymder o 50 mya ar y darnau o gefnffordd yr A483 a ddisgrifir yn Atodlen 5 i'r Hysbysiad hwn.

Ni chaniateir goddiweddyd pan fydd y terfynau cyflymder is yn weithredol.

Daw'r Gorchymyn i rym ar 4 Hydref 2021. Disgwylir y bydd y gwaharddiadau a'r cyfyngiadau dros dro yn weithredol o 00:01 o'r gloch ar 4 Hydref 2021 tan 23:59 o'r gloch ar 14 Tachwedd 2021 neu hyd nes y caiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol.

Dim ond yn ystod y cyfnod a bennir uchod y disgwylir i'r Gorchymyn fod mewn grym. Er hynny, bydd yn parhau'n ddilys am gyfnod o 18 mis ar y mwyaf rhag ofn y bydd angen ailamserlennu'r gwaith neu wneud gwaith canlyniadol neu waith arall. Bydd hysbysiad ymlaen llaw am unrhyw newidiadau i'r amseroedd a'r

**THE A483 TRUNK ROAD (JUNCTION 5
(MOLD ROAD INTERCHANGE) TO
JUNCTION 7 (ROSSETT INTERCHANGE),
WREXHAM COUNTY BOROUGH)
(TEMPORARY TRAFFIC PROHIBITIONS &
RESTRICTIONS) ORDER 2021**

The Welsh Ministers have made an Order under section 14 of the Road Traffic Regulation Act 1984, which is necessary to undertake works on or near the A483 trunk road between Junction 5 (Mold Road Interchange) and Junction 7 (Rossett Interchange), Wrexham County Borough.

The effect of the Order is to temporarily:

i. close either the northbound or southbound carriageway of the length of the A483 trunk road described in Schedule 1 to this Notice. Contraflow will operate in the offside lane of whichever carriageway remains open to traffic;

ii. prohibit vehicles over 3.2 metres wide from proceeding on the lengths of the A483 trunk road described in Schedule 2 to this Notice. Arrangements will be made for such vehicles to park up in designated areas and be escorted through the works area;

iii. prohibit all vehicles (other than those being used by the emergency services and for the works) and cyclists from proceeding on the lengths of the A483 trunk road described in Schedule 3 to this Notice. The alternative routes are described therein;

iv. impose either a 30 mph or 40 mph speed limit on the lengths of the A483 trunk road described in Schedule 4 to this Notice.

v. impose a 50 mph speed limit on the lengths of the A483 trunk road described in Schedule 5 to this Notice.

No overtaking will be permitted when the reduced speeds limits are in force.

The Order comes into force on 4 October 2021. The temporary prohibitions and restrictions are expected to operate from 00:01 hours on 4 October 2021 until 23:59 hours on 14 November 2021 or until the temporary traffic signs are permanently removed.

Although the Order is only expected to be in force during the period specified above it will remain valid for a maximum period of 18 months, as a contingency, should the work need to be rescheduled or consequential or other work is required. Advance notice of any changes to times and dates will be

dyddiadau yn cael ei arddangos cyn gwneud unrhyw waith a ailamserlennir.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan Llywodraeth Cymru ar <https://llyw.cymru/gorchymynion-ffyrdd>.

Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynon, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ

J SADDLER
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

ATODLEN 1 **Gwrthlif**

Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 272 o fetrau i'r gogledd o linell ganol pont y B5425 New Road hyd at bwynt 1,200 o fetrau i'r de o ganolbwynt Cyffordd 7 (Cyfnewidfa'r Orsedd).

ATODLEN 2 **Gwahardd cerbydau llydan dros dro**

Y darn o gerbyttffordd tua'r gogledd y gefnffordd sy'n ymestyn o drwyniad y ffordd ymadael tua'r gogledd wrth Gyffordd 5 (Cyfnewidfa Ffordd yr Wyddgrug) hyd at ddiwedd trwyniad y ffordd ymuno tua'r gogledd wrth Gyffordd 7 (Cyfnewidfa'r Orsedd).

Y darn o gerbyttffordd tua'r de y gefnffordd sy'n ymestyn o drwyniad y ffordd ymadael tua'r de wrth Gyffordd 7 (Cyfnewidfa'r Orsedd) hyd at drwyniad y ffordd ymuno tua'r de wrth Gyffordd 5 (Cyfnewidfa Ffordd yr Wyddgrug).

ATODLEN 3 **Gwahardd cerbydau a beicwyr dros dro**

Y darnau o'r ffyrdd ymadael ac ymuno tua'r gogledd a thua'r de wrth Gyffordd 6 (Cyfnewidfa Gresffordd).

Y darnau o'r ffyrdd ymadael tua'r gogledd ac ymuno tua'r de wrth Gyffordd 7 (Cyfnewidfa'r Orsedd).

Y llwybrau eraill

Y llwybrau eraill ar gyfer cerbydau sy'n teithio tua'r gogledd a thua'r de ac sy'n dymuno ymadael â'r A483 wrth Gyffordd 6 a cherbydau sy'n teithio tua'r gogledd sy'n dymuno ymadael wrth Gyffordd 7 fydd aros ar yr A483, parhau hyd at y gyffordd nesaf, ymadael yno a dychwelyd ar y gerbyttffordd gyferbyn hyd at y lleoliad y maent yn dymuno ymadael â'r A483.

displayed before any rescheduled work.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at <https://gov.wales/road-orders>.

A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ

J SADDLER
Transport
Welsh Government

SCHEDULE 1 **Contraflow**

The length of the trunk road that extends from a point 272 metres north of the centre-line of the B5425 New Road bridge to a point 1,200 meters south of the centre-point of Junction 7 (Rossett Interchange).

SCHEDULE 2 **Temporary prohibition of wide vehicles**

The length of the northbound carriageway of the trunk road that extends from the nosing of the northbound exit slip road at Junction 5 (Mold Road Interchange) to the end of the nosing of the northbound entry slip road at Junction 7 (Rossett Interchange).

The length of the southbound carriageway of the trunk road that extends from the nosing of the southbound exit slip road at Junction 7 (Rossett Interchange) to the nosing of the southbound entry slip road at Junction 5 (Mold Road Interchange).

SCHEDULE 3 **Temporary prohibition of vehicles and cyclists**

The lengths of the northbound and southbound exit and entry slip roads at Junction 6 (Gresford Interchange).

The lengths of the northbound exit and southbound entry slip roads at Junction 7 (Rossett Interchange).

Alternative routes

The alternative routes for northbound/southbound vehicles wishing to leave the A483 at Junction 6 and northbound vehicles leaving at Junction 7 is to remain on the A483, continue to the next junction, exit and return on the opposite carriageway to leave at the desired location.

Y llwybr arall ar gyfer cerbydau sy'n teithio tua'r gogledd a thua'r de ac sy'n dymuno ymuno â'r A483 wrth Gyffordd 6 a cherbydau sy'n teithio tua'r de sy'n dymuno ymuno wrth Gyffordd 7 fydd ymuno â'r gerbyttfordd gyferbyn, parhau hyd at y gyffordd nesaf, ymadael yno a dychwelyd ar y gerbyttfordd berthnasol.

ATODLEN 4

Terfyn cyflymder o 30 mya neu 40 mya dros dro a dim goddiweddyd

Y darn hwnnw o gerbyttfordd tua'r gogledd y gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 70 o fetrau i'r de-orllewin o ganolbwynt Cyffordd 5 (Cyfnewidfa Ffordd yr Wydgrug) hyd at ganolbwynt Cyffordd 7 (Cyfnewidfa'r Orsedd).

Y darn o gerbyttfordd tua'r de y gefnffordd sy'n ymestyn o ganolbwynt trosbont Broadoak, man i'r gogledd o Gyffordd 7 (Cyfnewidfa'r Orsedd) hyd at bwynt 40 metr i'r de o ganolbwynt Cyffordd 5 (Cyfnewidfa Ffordd yr Wyddgrug).

ATODLEN 5

Terfyn cyflymder 50 mya dros dro a dim goddiweddyd

Y darn hwnnw o gerbyttfordd tua'r gogledd y gefnffordd sy'n ymestyn o'r arwyddion adfer y terfyn cyflymder wrth ganolbwynt Cyffordd 6 (Cyfnewidfa Gresffordd) hyd at ganolbwynt Cyffordd 7 (Cyfnewidfa'r Orsedd).

Y darn o gerbyttfordd tua'r de y gefnffordd sy'n ymestyn o ganolbwynt trosbont Broadoak, man i'r gogledd o Gyffordd 7 (Cyfnewidfa'r Orsedd) hyd at y cyfyngiad cyflymder 50 mya parhaol wrth ganolbwynt Cyffordd 6 (Cyfnewidfa Gresffordd).

The alternative route for northbound/southbound vehicles wishing to join the A483 at Junction 6 and southbound vehicles joining at Junction 7 is to join the opposite carriageway, proceed to the next junction, exit and return on the relevant carriageway.

SCHEDULE 4

Temporary 30 mph or 40 mph speed limit and no overtaking

That length of the northbound carriageway of the trunk road that extends from a point 70 metres south-west of the centre-point of Junction 5 (Mold Road Interchange) to the centre-point of Junction 7 (Rossett Interchange).

The length of the southbound carriageway of the trunk road that extends from the centre-point of Broadoak overbridge, north of Junction 7 (Rossett Interchange) to a point 40 metres south of the centre-point of Junction 5 (Mold Road Interchange).

SCHEDULE 5

Temporary 50 mph speed limit and no overtaking

That length of the northbound carriageway of the trunk road that extends from the derestricted speed limit signage at the centre-point of Junction 6 (Gresford Interchange) to the centre-point of Junction 7 (Rossett Interchange).

The length of the southbound carriageway of the trunk road that extends from the centre-point of Broadoak overbridge, north of Junction 7 (Rossett Interchange) to the permanent 50 mph speed restriction at the centre-point of Junction 6 (Gresford Interchange).